# PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD
## 18 MEDI 2015

***(NODER: MAE'R COFNODION HYN YN AMODOL AR GAEL EU CADARNHAU GAN Y PWYLLGOR YN EI GYFARFOD NESAF)***

**Yn bresennol:** **Y Cynghorydd A.P. Cooper (Cadeirydd)**

**Y Cynghorwyr:** **A. Davies, D.B. Davies, J.A. Davies, D.C. Evans, I.J. Jackson, A. James, J.P. Jenkins, A.D.T. Speake, S.E. Thomas, D.E. Williams**

**Y Cynghorydd J.D. James – Yn dirprwyo ar ran y Cynghorydd K.P. Thomas**
**Y Cynghorydd M.J.A. Lewis – Yn dirprwyo ar ran y Cynghorydd W.J. Lemon**

**Hefyd yn bresennol:**

**Y Cynghorydd H.A.L. Evans –** Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros y Gwasanaethau Technegol
**Y Cynghorydd P.A. Palmer –** Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau (gan gynnwys Diogelwch Cymunedol, Cyfiawnder Cymdeithasol / Troseddau ac Anhrefn)

Yn bresennol fel sylwedydd: **Y Cynghorydd D.J.R. Bartlett**

**Roedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

Mr. E. Bowen – Cyfarwyddwr Dros Dro yr Amgylchedd
Prif Arolygydd C. Templeton – Heddlu Dyfed-Powys *(ar gyfer Eitem 6)*
Mr. R. Edmunds – Rheolwr y Gwasanaethau Safonau Masnach *(ar gyfer Eitem 8)*
Ms. R. James – Cyfrifydd y Grŵp
Mr. J. McEvoy – Rheolwr Traffig a Diogelwch Ffyrdd
Ms. K. Thomas – Rheolwr Diogelwch Cymunedol
Mr. M. Hughes – Ymgynghorydd Cynorthwyol

**Lleoliad:** Siambr Neuadd y Sir, Caerfyrddin (11:20yb – 12:30yp)

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr W.J. Lemon, K.P. Thomas ac W.G. Thomas.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | **Rhif y Cofnod(ion)** | **Y Math o Fuddiant** |
|---|---|---|
| Y Cyng. D.E. Williams | 8. Adroddiad Monitro ynghylch Cyllideb Refeniw a Chyllideb Gyfalaf 2015/16 | Perchennog cyfreithiol Troadau Cystanog (ar y B4300, Capel Dewi) |

# PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD
## 18 MEDI 2015

### 3. DATGAN CHWIP WAHARDDEDIG

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwipiaid y pleidiau.

### 4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

### 5. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

**PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ddydd Iau, 12fed Tachwedd 2015.**

### 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL 2014–15

Croesawyd y Cynghorydd P.A. Palmer (Cadeirydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol) a'r Prif Arolygydd C. Templeton (Heddlu Dyfed-Powys) i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Cafodd adroddiad blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Gaerfyrddin, a gyflwynwyd gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gyswllt â'r Heddlu, Diogelwch Cymunedol, Cyfiawnder Cymdeithasol/Troseddau ac Anrhefn (a oedd hefyd yn Gadeirydd y Bartneriaeth), ei roi gerbron y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn rhoi sylw i'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â throseddau ac anhrefn yn ystod 2014/15 a'r newyddion diweddaraf gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a'r gwasanaeth Prawf. Hefyd roedd yn rhoi sylw i'r prif feysydd lle roedd gweithio mewn partneriaeth ac i flaenoriaethau presennol y grwpiau gweithredu amlasiantaeth a oedd yn gyrru'r agenda diogelwch cymunedol yn ei blaen.

Codwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:

Cyfeiriwyd at risgiau diogelwch mewn dyfrffyrdd mewndirol ac o'u cwmpas a gofynnwyd pwy oedd yn gyfrifol dros arwain ynghylch materion o'r fath gan nad oedd gan yr RNLI ddigon o weithwyr i gyflawni'r gwaith hwn. Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau wrth y Pwyllgor ei bod wedi cynnal cyfarfod yn ddiweddar â grŵp newydd yng Nghaerfyrddin (Partneriaeth Diogelwch Dŵr Sir Gaerfyrddin) a bod y mater i'w drafod yng nghyfarfod nesaf y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Roedd y materion yr oedd angen mynd i'r afael â nhw yn cynnwys egluro pa sefydliad oedd yn gyfrifol dros gynnal a chadw offer diogelwch megis bwiau achub. Sicrhaodd hi'r Pwyllgor y byddai'r sefydliadau amrywiol yn gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â hyn a'i bod hi'n barod rhoi diweddariad mewn cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

# PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD
## 18 MEDI 2015

Yn ateb i gwestiwn ynghylch faint o ddata o gamerâu Teledu Cylch Cyfyng a ddefnyddiwyd i ddatrys troseddau, dywedodd y Rheolwr Diogelwch Cymunedol wrth y Pwyllgor fod y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys o'r blaen yn yr adroddiad blynyddol. Fodd bynnag, o Fehefin 2015 ymlaen, nid oedd ystadegau'n cael eu coladu bellach gan fod y monitro byw wedi dod i ben.

Gofynnwyd a fyddai modd defnyddio gwirfoddolwyr i fonitro camerâu Teledu Cylch Cyfyng yn fyw o'u cartrefi nhw. Dywedodd y Rheolwr Diogelwch Cymunedol fod yn rhaid i weithredwyr gydymffurfio â gofynion y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) a Diogelu Data ac y byddai'n amhriodol i wirfoddolwyr sydd heb eu hyfforddi wylio delweddau byw o'r cyhoedd. Fodd bynnag, roedd trafodaethau ar waith gyda chynrychiolwyr yr Heddlu ynghylch y modd y gallai'r camerâu gael eu defnyddio yn y dyfodol a'r defnydd gorau ohonynt.

Gofynnwyd cwestiwn ynghylch ymgyrch '#PaulsPledge' a gofynnwyd am eglurhad o ran pa gefnogaeth roedd Paul Pugh yn ei gael gan y Bartneriaeth. Dywedodd y Rheolwr Diogelwch Cymunedol wrth y Pwyllgor fod Heddlu Dyfed-Powys yn arwain ynghylch yr ymgyrch hon a bod yr Awdurdod yn rhoi costau teithio i Mr. Pugh pan fyddai'n hyrwyddo'i ymgyrch mewn digwyddiadau ledled y sir. Hefyd roedd elusennau eraill yn cefnogi gwaith Mr. Pugh.

Croesawyd y gostyngiad yn y rhan fwyaf o'r categorïau troseddau ond mynegwyd pryder ynghylch troseddau tymhorol mewn ardaloedd gwledig (e.e. dwyn defaid yn ystod y tymor ŵyna), gan yr awgrymwyd bod llawer o drigolion cefn gwlad yn teimlo eu bod ar eu pennau eu hunain i raddau yn wynebu'r problemau hyn. Roedd y Prif Arolygydd yn cydnabod, er bod nifer y troseddau wedi gostwng, bod yr Heddlu'n deall bod dal angen iddo wella ei weithrediadau a deall ei gymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Un elfen o'r gwaith hwn oedd cyflwyno gorsafoedd heddlu teithiol.

Cyfeiriwyd at oryrru ar y ffyrdd yn ardal cam cyntaf y datblygiad yn Nwyrain Cross Hands (e.e. Heol y Llew Du) a bod angen gwella'r arwyddion er mwyn atgoffa gyrwyr o'r terfyn cyflymder 30m.y.a. Cytunodd y Prif Arolygydd i fwydo'r wybodaeth hon yn ôl i'r swyddogion perthnasol yn yr Heddlu.

Gofynnwyd a fu newid yn y mathau o droseddau y rhoddwyd gwybod amdanynt ac a gofnodwyd. Dywedodd y Prif Arolygydd wrth y Pwyllgor fod troseddau yn ymwneud â cham-drin rhywiol hanesyddol wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd yn arbennig o galonogol bod y dioddefwyr yn barod i ddod ymlaen ac roedd yr Heddlu'n barod i ymdrin â'r cynnydd hwn.

Mynegwyd pryder ynghylch nifer uchel y marwolaethau ymhlith beicwyr modur ac awgrymwyd nad oedd y cynlluniau niferus a oedd ar waith yn arwain at ostyngiad yn y niferoedd hyn. Roedd y Rheolwr Traffig a Diogelwch Ffyrdd a'r Prif Arolygydd yn cydnabod bod nifer y marwolaethau'n destun pryder mawr a bod addysg yn allweddol. Atgoffwyd y Pwyllgor gan y Rheolwr Traffig a Diogelwch Ffyrdd bod y fenter ymgysylltu yn Llanymddyfri ond wedi cael ei chyflwyno yn ystod 2015/16 ac y byddai ei heffaith yn cael ei hadolygu maes o law. Dull partneriaeth gyda'r Heddlu

a'r Gwasanaeth Tân oedd hyn lle roedd swyddogion yn cwrdd â beicwyr modur ac yn trafod materion diogelwch ffyrdd yn ogystal â chynnig cyfleoedd iddynt fynychu cwrs diogelwch ffyrdd a gynhelir gan yr Awdurdod. Hefyd ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i ddulliau blaengar ar gyfer targedu'r broblem a disgwylir rhagor o fanylion yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Yn ateb i gwestiwn am y fenter Trin Llwybrau Gwledig, dywedodd y Rheolwr Traffig a Diogelwch Ffyrdd wrth y Pwyllgor fod y fenter hon a ddechreuodd yn 2007 yn canolbwyntio ar y llwybrau cyflymder uchel hynny lle roedd hanes o ddamweiniau yn hytrach na gwella cyffyrdd neu drofeydd penodol yn unig. Roedd y prosiectau'n cynnwys gwaith peirianyddol, arwyddion a marciau ffordd newydd a therfynau cyflymder diwygiedig. Roedd y fenter wedi cael ei chydnabod gan Lywodraeth Cymru fel enghraifft o arfer dda ac roedd yr Awdurdod wedi bod yn llwyddiannus unwaith yn rhagor o ran sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau penodol yn 2015/16.

Gofynnwyd cwestiwn ynghylch llwybrau'r A40/A48 yng Nghaerfyrddin a'r cyffiniau. Dywedodd y Rheolwr Traffig a Diogelwch Ffyrdd wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru ac Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru wedi adolygu a newid terfynau cyflymder ar draws y rhwydwaith cefnffyrdd yn Sir Gaerfyrddin yn ddiweddar ac y gwnaethpwyd newidiadau yn y terfynau cyflymder yng nghyffiniau Caerfyrddin. Roedd yr Awdurdod yn cydgysylltu â'r Asiantaeth Cefnffyrdd yn rheolaidd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 7. DIWEDDARIAD YNGHYLCH YR YMWELIADAU Â'R GWASANAETHAU CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU

Bu'r Pwyllgor yn ystyried diweddariad ynghylch yr ymweliadau a wnaed gan Aelodau'r Bwrdd Gweithredol, oedd â chyfrifoldeb dros gamddefnyddio sylweddau ac iechyd a gofal cymdeithasol, â darparwyr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Cynhaliwyd yr ymweliadau mewn ymateb i argymhelliad gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor, yn dilyn ei adolygiad o'r Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yn ystod 2013/14.

Codwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:

Awgrymwyd mai'r unigolion hynny oedd heb ofyn am gymorth oedd y rhai a achosai'r aflonyddwch pennaf mewn cymunedau. Canmolwyd y Cyngor am ddefnyddio deddfwriaeth newydd yn ddiweddar i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus mewn eiddo ym Mhen-y-groes drwy gyhoeddi Hysbysiad Cau i ddiogelu tenantiaid a phreswylwyr oedd yn byw ger yr eiddo. Cytunodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau ei bod yn bwysig dangos na fyddai ymddygiad gwrthgymdeithasol annerbyniol yn cael ei ganiatáu ond hefyd dylid atgoffa unigolion bod cymorth fel yr hyn a ddarperir gan y gwasanaethau trin camddefnyddio sylweddau ar gael.

Awgrymodd y Cadeirydd y dylid gwahodd Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a gyflawnodd yr adolygiad o'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau i ddod gyda'r Aelodau perthnasol o'r Bwrdd Gweithredol ar ymweliadau yn y dyfodol. Cytunodd y Pwyllgor â'r cynnig hwn.

**PENDERFYNWYD:**

**7.1 Bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn**

**7.2 Bod Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen (yn ystod yr Adolygiad o'r Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau) yn dod gyda'r Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol ar ymweliadau yn y dyfodol.**

**8. ADRODDIAD MONITRO YNGHYLCH CYLLIDEB REFENIW A CHYLLIDEB GYFALAF 2015/16**

*Roedd y Cyng. D.E. Williams wedi datgan buddiant gan ei fod ef yn berchennog cyfreithiol Troadau Cystanog (ar y B4300, Capel Dewi).*

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr Adroddiadau Monitro ynghylch y Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer Adran yr Amgylchedd, Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd a'r Tîm Diogelwch Cymunedol, fel yr oeddynt ar 30ain Mehefin 2015, mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2015/16. Codwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:

Yn ateb i gwestiwn am statws presennol trosglwyddo cyfleusterau cyhoeddus, nododd Cyfrifydd y Grŵp fod yr amrywiad o £44,000 yn ymwneud â'r costau oedd yn parhau fel rhan o'r rhaglen dreigl dair blynedd o drosglwyddiadau.

Cyfeiriwyd at yr amrywiad o £50,000 yn y gwasanaeth Dylunio Sifil a gofynnwyd am eglurhad ynghylch ffynhonnell yr incwm. Dywedodd Cyfrifydd y Grŵp wrth y Pwyllgor fod yr incwm yn dod o gleientiaid mewnol ac allanol a bod adolygiad o'r cyfraddau'r awr a'r cynhyrchiant yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i geisio gwneud iawn am y diffyg posibl mewn incwm. Dywedodd Cyfarwyddwr Dros Dro yr Amgylchedd wrth y Pwyllgor fod Timau Dylunio Priffyrdd a Ffyrdd nad ydynt yn Briffyrdd yn uno ar hyn o bryd. Y Cyfarwyddwr blaenorol oedd wedi cynnig hyn ac roedd yr ailstrwythuro'n digwydd er mwyn cronni sgiliau a gwybodaeth, bod yn llai dibynnol ar ymgynghorwyr allanol ac ymdrin â chynnydd a gostyngiad yn y galw.

Yn ateb i sylwadau pellach ynghylch creu incwm a'r costau oedd yn gysylltiedig â swyddi gwag, cytunodd Cyfarwyddwr Dros Dro yr Amgylchedd fod gwaith y Gwasanaeth Dylunio yn gyfle i greu incwm i'r Awdurdod. Un enghraifft o hyn oedd y gwaith oedd yn digwydd gyda sefydliadau allanol yn y sector cyhoeddus i reoli fframweithiau contractwyr rhanbarthol. Roedd y costau oedd yn gysylltiedig â swyddi gwag yn dangos fod pob swydd yn y gwasanaeth hwn yn creu incwm i'r Awdurdod a bod cyflogi staff yn risg pan fyddai'r galw am waith yn gostwng. Dyma reswm arall pam roedd yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda sefydliadau eraill yn y

sector cyhoeddus, a thrwy hynny'n sicrhau bod rhaglenni gwaith yn y dyfodol yn cael eu cynllunio'n well.

Gofynnwyd pam roedd amrywiad o £393,000 yng nghyllideb y Gwasanaethau Eiddo oherwydd targed incwm nad oedd modd ei gyflawni, a hithau'n hysbys y byddai gwaith Safon Tai Sir Gaerfyrddin yn gostwng yn y pen draw wrth i'r prosiect gael ei gwblhau. Dywedodd Cyfrifydd y Grŵp a Chyfarwyddwr Dros Dro yr Amgylchedd wrth y Pwyllgor fod y Gwasanaeth yn ystyried amrywiol arbedion effeithiolrwydd a bod uwch swyddogion yn edrych ar y mater hwn gan ei fod yn fater a oedd wedi cael ei gydnabod ers cryn amser a bellach roedd pethau wedi mynd i'r pen.

Gofynnwyd a fyddai cronfeydd a glustnodwyd (corfforaethol neu adrannol) yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael â'r amrywiad diwedd blwyddyn a ragwelir sef £379,000. Dywedodd Cyfrifydd y Grŵp wrth y Pwyllgor fod cronfeydd adrannol a phenodol y gellid eu defnyddio i dalu'r gorwariant ond bod yr ymarfer monitro diweddaraf o'r gyllideb ar gyfer diwedd Awst 2015, wedi dangos bod y gorwariant wedi gostwng. Nododd Cyfarwyddwr Dros Dro yr Amgylchedd fod cronfeydd yn cael eu cadw'n aml ar gyfer prosiectau a fyddai'n arbed arian i'r Awdurdod yn y tymor hir (e.e. uwchraddio'r rhwydwaith goleuadau cyhoeddus gyda bylbiau ynni effeithlon) ond byddai modd dosbarthu rhestr o'r cronfeydd hynny a'r hyn y dyrannwyd nhw'n benodol ar eu cyfer, i'r Pwyllgor.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch yr amrywiad o £17,000 yn y Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd wrth dangyflawni o ran incwm ffioedd yn 2015/16. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Safonau Masnach wrth y Pwyllgor fod hyn yn adlewyrchu'r hinsawdd ariannol bresennol ac yn ymwneud â'r Gwaith Diogelwch a wnaed i fonitro ac i reoleiddio'r gwaith o storio deunyddiau peryglus (e.e. ffrwydron). Hefyd roedd achosion llys a gallu'r Awdurdod i adennill costau wedi dylanwadu ar yr amrywiad.

Yn ateb i gwestiwn am y gwaith yng Nghronfa Ddŵr Trebeddrod, roedd Cyfrifydd y Grŵp yn cydnabod nad oedd dim manylion yn yr adroddiad ond bod £112,000 wedi cael ei wario ar y prosiect hyd yma. Ychwanegodd y gellid dosbarthu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 9. EGLURHAD DROS BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIADAU CRAFFU

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r rhesymau dros beidio â chyflwyno'r adroddiad ynghylch Effaith Safonau Masnach Awdurdod Lleol mewn Cyfnod Heriol, adroddiad yr Adolygiad o Oleuadau Stryd yn ogystal ag Adroddiad Blynyddol 2014/15 y Gwasanaethau Diogelu.**

# PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD
## 18 MEDI 2015

**10. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR GOFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 26AIN MEHEFIN 2015**

Gofynnodd y Cynghorydd D.C. Evans i'r cofnodion gael eu newid er mwyn iddynt ddangos ei fod ef yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf.

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26ain Mehefin 2015 yn gofnod cywir, yn amodol ar gynnwys y newid uchod.**

**LLOFNODWYD:** __________________________ (Cadeirydd)

**Y DYDDIAD:** __________________________